

Ymyrraeth	Teithio Cynaliadwy		Gwyrdd	Cynnydd yn unol â'r targed ar hyn o bryd		
			Melyn	Cynnydd heb fwrw'r targed, ond yn gyrraeddadwy o hyd		
Yn Arwain	Ceri Doyle / Craig Lane	Cyfnod Adrodd	Ch4 2020-2021	Coch	Cynnydd ymhell o fwrw'r targed	
Prif Gyflawniadau a Llwyddiannau						
<p>CAM 1: BGC i ddod yn hyrwyddwyr Teithio Cynaliadwy: Cafodd Siarter Teithio Cynaliadwy Gwent ei lansio ym mis Tachwedd 2020. Mae 23 o sefydliadau wedi ymuno â'r siarter hyd yn hyn.</p>						
<p>CAM 2: Creu amgylchedd y bydd trafniadaeth gyhoeddus, cerdded a beicio yn flaenoriaeth ynddo: Mae Canllawiau Cynllunio Atodol Teithio Cynaliadwy a gorfodi parcio sifil bellach ar waith. Cwblhawyd gwaith dichonoldeb a chwmpasu o ran llogi beiciau ar y stryd. Mae cynlluniau teithio llesol dros dro ar waith mewn ymateb i Covid. Mae ymgyrch ymwybyddiaeth gyhoeddus o deithio llesol wedi ei lansio gan rannu fideo wedi'i hanimeiddio ar y cyfryngau cymdeithasol. Mae adolygiad llawn o lwybrau teithio llesol yn mynd rhagddo ar hyn o bryd sy'n cynnwys ymgynghori â rhanddeiliaid cyhoeddus a rhanddeiliaid allweddol eraill. Mae'r ymgynghoriad cyntaf wedi dod i ben a dadansoddwyd yr holl sylwadau i ddarparu ein map cyntaf o lwybrau'r dyfodol. Ymgynghoriad cyhoeddus i ailagor yr wythnos yn dechrau 12 Mehefin er mwyn gallu gwneud sylwadau pellach cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.</p>						
<p>CAM 3: Annog y defnydd o ULEV: Mae 38 o bwyntiau gwefru ychwanegol wedi'u gosod yng Nghasnewydd. Mae ECO Stars yn parhau i gefnogi'r rhai sydd wedi cofrestru i'r cynllun. Erbyn hyn mae gan Fysus Casnewydd 15 o fysus ULEV.</p>						
Prif Risgiau / Rhwystrau						
Statws	Camau Lliniarol					
<i>Peidio â defnyddio'r cyfleoedd sy'n deillio o gomisiwn yr M4.</i>	Uchel	<i>Mae cynrychiolydd SEWTC yn eistedd ar grŵp Teithio Cynaliadwy'r BGC i sicrhau bod y BGC yn cymryd rhan lawn yn y broses hon.</i>				
<i>Diffyg cyllid parhaus ar gyfer ymyriadau teithio llesol mewn ysgolion.</i>	Canolig	<i>Derbyniwyd £203k yn 2021-22 ar gyfer y cynllun strydoedd di-draffig ger ysgolion.</i>				
<i>Cynllun llogi beiciau ar y stryd ddim yn mynd yn ei flaen</i>	Canolig	<i>Cais am gyllid yn barod i'w gyflwyno. I'w gyflwyno pan fydd y cylch ariannu nesaf ar gael yn ddiweddarach yn y flwyddyn.</i>				
Mesurau Perfformiad						
Amser-len	Targed	Gwirioneddol	CMG			
Siarter Teithio	Sefydliadau sydd wedi cofrestru ar draws Gwent	Tach 20	15	23	Gwyrdd	
Teithio Llesol	Gwrth-gynnydd ar y flwyddyn flaenorol ar gyfer pob chwarter	Ch1	25%	94%	Gwyrdd	
		Ch2		52%	Gwyrdd	
		Ch3		17%	Gwyrdd	
		Ch4		58%	Gwyrdd	
		Blwyddyn		47%	Gwyrdd	
Ysgolion	Rhaglenni teithio llesol ysgolion	Mawrth 21	5	3	Coch	
ULEV	Nifer y bysus ULE ar waith	Rhag 20	15	15	Gwyrdd	
	Pwyntiau gwefru wedi'u gosod	Mawrth 21	40	38	Melyn	
ECOstar	Nifer y sefydliadau sydd wedi cofrestru	Mawrth 21	50	47	Melyn	
Cynlluniau ar gyfer y chwarter nesaf a'r dyfodol						
<p>CAM 1: Partneriaid i weithio gyda'i gilydd i weithredu'r ymrwymadau yn Siarter Teithio Gwent. Hefyd bydd holiadur staff yn cael ei gynnal yn ddiweddarach yn y flwyddyn.</p>						
<p>CAM 2: Dros £11m o gyllid i wella lwybrau teithio llesol ymhellach a gwella seilwaith bysus yn 2021-22 gan gynnwys pont teithio llesol Devon Plance. Caiff tudalen we Teithio Llesol ei diweddarau ymhellach i'w defnyddio fel offer effeithiol i ddarparu diweddariadau a hyrwyddo teithio llesol.</p>						
<p>CAM 3: Yn ystod y flwyddyn i ddod, bydd cynllun peilot tacsis trydan yn cael ei gynnal gan osod pwyntiau gwefru ychwanegol ar gyfer y cynllun. Yn ogystal, bydd 10 pwynt gwefru preswyl ar y stryd yn cael eu gosod. Canllawiau gosod cerbydau trydan a chynllun rhanbarthol i'w datblygu. Mae Bysus Casnewydd yn disgwyl 15 bws ULEV ychwanegol hefyd yn 2021-22.</p>						